

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr
Trydydd cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ3)
Cyhoeddwyd ar Ddydd Mercher 1 Mawrth 2023

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu trydydd cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ3.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Aseiad Cychwynnol o Brif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 23 Awst 2022 [PD-007]. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r aseiad o'r cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba Bartion â Buddiant (IPs) ac unrhyw Unigolion Eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif (sy'n dangos ei fod yn perthyn i'r rownd ExQs o'r rhif hwnnw) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar 'Faterion cyffredinol a thrawsbynciol' yn y rownd hon o gwestiynau fel ExQ3.0.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Dylid anfon ymatebion at [flwch negeseuon e-bost](#) yr Archwiliad. Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn neges e-bost neu lythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos.

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn **Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**



Talfyriadau a ddefnyddir

A	Erthygl
AIL	Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin
AIS	Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer
ALAR	Adroddiad Asesu Llwyth Anghyffredin
ALC	Dosbarthiad Tir Amaethyddol
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
ATR	Llwybrau Teithio Llesol
AyM	Awel y Môr
BEIS	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
BoR	Llyfr Cyfeirio
CA	Caffael Gorfodol
CCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CEA	Asesiad o Effeithiau Cronnol
Cefas	Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
CLS	Datganiad Ieithyddol Cymunedol
CSIP	Cynllun Manyleb a Gosod Ceblau
DAERANI	Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon
dDCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft
DCC	Cyngor Sir Ddinbych
DCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu
ECC	Coridor Cebll Allforio
ECoW	Clerc Gwaith Ecolegol
EDR	Radiws Atal Effeithiol
EM	Memorandwm Esboniadol
ENP	Parc Cenedlaethol Eryri



ENPA	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
EPR	Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
ES	Datganiad Amgylcheddol
ExA	Awdurdod Archwilio
FCA	Asesiad Canlyniadau Llifogydd
FCC	Cyngor Sir y Fflint
FMfP	Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio
FRAP	Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd
FS	Datganiad Cyllid
CALI	Cyferwerth ag Amser Llawn
FWNP	Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
GC	Cyngor Gwynedd
GCN	Madfallod Dŵr Cribog
GIS	Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio â Nwy
GyM	Gwynt y Môr
HDD	Drilio Cyfeiriadol Llorweddol
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
INNS	Rhywogaethau Estron Goresgynnol
IoACC	Cyngor Sir Ynys Môn
JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
km	Cilometrau
LIR	Adroddiad ar yr Effaith Leol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
LWS	Safle Bywyd Gwyllt Lleol
LVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol
m	metrau



MDS	Senario Dylunio Mwyaf
MHWS	Penllanw Cymedrig y Gorllanw
NATS	Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol
NE	Natural England
NS	NatureScot
NHWF	Fferm Wynt North Hoyle
NO_x	Ocsidiau Nitrogen
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
NRMM	Peiriant Symudol Nad yw ar gyfer y Ffordd
NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
NT	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
NWWT	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
oACMP	Cynllun Rheoli Ansawdd Aer amlinellol
oCCP	Cynllun Cyfathrebu Adeiladu amlinellol
oCoCP	Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol
oCMS	Datganiad Dulliau Adeiladu amlinellol
oNVMP	Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad amlinellol
oLEMP	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol
oPPEIRP	Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol
oPAMP	Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol
oSES	Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol
oSWMP	Cynllun Rheoli Gwastraff Safle amlinellol
oSMP	Cynllun Rheoli Pridd amlinellol
OnSS	Is-orsaf ar y Tir
oPPIERP	Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Argyfwng amlinellol



PA2008	Deddf Cynllunio 2008
PAH	Hydrocarbonau Aromatig Polysyclig
PPW	Polisi Cynllunio Cymru
PEIR	Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol
PRoW	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
PTS	Newid Trothwy Parhaol
R	Gofyniad
RFWF	Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl
RIAA	Adroddiad i Lywio Aseiad Priodol
RR	Sylw Perthnasol
RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
Sch	Atodlen
SGLP	Cynlluniau Tir Categori Arbennig
SLVIA	Aseiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol
SoCG	Datganiad(au) Tir Cyffredin
SoS	Ysgrifennydd Gwladol
SoR	Datganiad o'r Rhesymau
SNP	Parc Cenedlaethol Eryri
SuDS	Systemau Draenio Cynaliadwy
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
TP	Meddiant Dros Dro
TPO	Gorchymyn Cadw Coed
TSUPRoW	Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro
TTS	Newid Trothwy Dros Dro
UKCP18	Rhagolygon Hinsawdd y Deyrnas Unedig 2018



UXO	Ordnans Heb Ffrwydro
VP	Golygfan
WBFGW	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
WTG	Generadur Tyrbin Gwynt

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael [yma](#).

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarw wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

Mynegai

0.	Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol.....	8
1.	Hedfanaeth.....	11
2.	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol.....	11
3.	Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP).....	14
4.	Adeiladu.....	19
5.	Dylunio Da.....	21
6.	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO).....	21
7.	Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr.....	22
8.	Yr Amgylchedd Hanesyddol.....	23
9.	Defnydd Tir.....	23
10.	Tirwedd a Gweledol.....	26
11.	Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol.....	26
12.	Morol – Pysgodfeydd Masnachol, Morgludiant a Mordwyo.....	26
13.	Morol – Naturiol.....	26
14.	Iechyd y Cyhoedd a Niwsans.....	26
15.	Prosiectau a Chynigion Eraill.....	27
16.	Disgrifiad o'r Prosiect a Dethol Safle.....	27
17.	Morlun, Tirwedd a Gweledol.....	27
18.	Economaidd-Gymdeithasol.....	28
19.	Twristiaeth a Hamdden.....	30
20.	Traffig a Thrafnidiaeth.....	30

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

ExQ3 Cwestiwn ar gyfer: Cwestiwn		
0. Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol		
0.1	CNC	<p>Trwydded Forol Mae diweddariad yr Ymgeisydd ar Gyflwyno Trwydded Forol a'i Chynnydd a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 4 [REP4-025] yn datgan bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023 ynglŷn â gwybodaeth a gyflwynwyd i Dîm Trwyddedu Morol CNC ar 25 Tachwedd 2022. Rhowch grynodedb o unrhyw ganlyniadau perthnasol a ddeilliodd o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.</p>
0.2	Yr Ymgeisydd	<p>Rheoli Dogfennau Mae'r ExA yn nodi cyflwyniad [REP4-003] ynglŷn ag enwi a rhifo dogfennau. Fodd bynnag, mae'r anghysondeb ag Atodlen 13 y dDCO yn parhau i fod yn berthnasol i rai dogfennau a gyflwynwyd cyn Terfyn Amser 4 (gan gynnwys Cynllun Tir Alltraeth, Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ECC Ar y Tir / Is-orsaf, Strategaeth Ddraenio amlinellol, a Atodiadau oCoCP 2, 3, 5, 6, 9, 10 a 11). A wnewch chi gadarnhau sut rydych yn bwriadu cywiro hyn?</p>
0.3	Yr Ymgeisydd, CNC	<p>Gwaith Cyn Dechrau – Alltraeth Nid yw'r diffiniad o waith dechreuol yn Erthygl 2 y dDCO [REP6-005], [REP6-006] yn cynnwys rhai mathau o waith ar y tir sy'n ymwneud ag arolygu neu ymchwilio. A wnewch chi gadarnhau sut yr ymdrinnir â gwaith cyn-dechrau (os yw'n bodoli) yn y Drwydded Forol.</p>
0.4	Yr Ymgeisydd	<p>Gwaith Cyn Dechrau Mae'r diffiniad o 'ar y tir' yn Erthygl 2 y dDCO [REP6-005], [REP6-006] yn cynnwys Gwaith Rhif 3 a 3a, a gategoreiddir yn Atodlen 1 Rhan 1 y dDCO fel 'Rhynglanw ac yn Sir Ddinbych'. A wnewch chi gadarnhau bod y diffiniad o waith cyn dechrau a gynhwysir yn y diffiniad o 'ddechrau' yn y dDCO yn berthnasol i'r ardaloedd Gwaith hyn.</p>

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

0.5	North Hoyle Wind Farm Ltd (NHWF), yr Ymgeisydd	Fferm Wynt North Hoyle A wnaiff NHWF gadarnhau dyddiad a hyd disgwylidig datgomisiynu ei fferm wynt alltraeth. A wnaiff yr Ymgeisydd ddisgrifio ei dybiaeth ynglŷn â gwaith datgomisiynu Fferm Wynt North Hoyle ac a oedd wedi'i gynnwys yn eich asesiad o effeithiau cronol.
0.6	Yr Ymgeisydd	Cyflenwi Cartrefi A wnewch chi gadarnhau'r ffigur amcangyfrifedig o ran cyflenwi cartrefi. Mae paragraffau 14, 884 ac 891 y Datganiad Cynllunio [APP-298] yn datgan y disgwylir i'r Datblygiad Arfaethedig ddarparu trydan glân ar gyfer hyd at 500,000 o gartrefi, tra bod paragraff 878 yn datgan mai'r ffigur hwn yw 400,000.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

0.7	Yr Ymgeisydd	<p>Ffermydd Gwynt Alltraeth Mona a Morgan</p> <p>Mae eich ateb i ExQ2.0.6 yn nodi'r testun a gynhwysir ym mharagraff 5(e) Atodlen 4 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 yn ymwneud â'r gofyniad i asesu effeithiau cronol gyda phrosiectau "eraill presennol a/neu a gymeradwywyd", gan ddatgan bod hyn yn golygu bod y gofyniad cyfreithiol wedi'i gyfyngu i brosiectau sydd naill ai wedi'u cydsynio neu wedi'u hadeiladu eisoes. Mae'r ateb yn cyfeirio ymhellach at Nodyn Cyngor 17 yng nghyd-destun datblygiad arall presennol a/neu wedi'i gymeradwyo. Fodd bynnag, mae adroddiadau cwmpasu wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer Mona a Morgan, sy'n golygu y byddent yn dod o fewn Haen 2 y Nodyn Cyngor.</p> <p>Mae'r ExA hefyd yn nodi yn eich ymateb bod "cryn ansicrwydd ynghylch...safle'r is-orsaf ar y tir", ond mae'n nodi bod holl leoliadau posibl yr is-orsaf yng nghyffiniau Bodelwyddan a gellid tybio y byddent yn 'bwydo' i'r un is-orsaf Grid Cenedlaethol ag y byddai'r datblygiad arfaethedig.</p> <ul style="list-style-type: none">a) Darparwch dystiolaeth ychwanegol, gan gyfeirio at gyfraith achosion os oes angen, fod "presennol" yng nghyd-destun paragraff 5(e) Atodlen 4 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 yn gyfystyr â phrosiectau sydd wedi'u cydsynio neu wedi'u hadeiladub) Darparwch unrhyw gyfiawnhad ychwanegol dros eich penderfyniad i beidio â chynnal asesiad cronol, os dymunwch wneud hynny.
0.8	Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol (NGET)	<p>Is-orsaf Bodelwyddan</p> <p>Mae eich sylw ysgrifenedig a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-071] yn datgan bod "NGET yn mynd ar drywydd cais cynllunio ar gyfer y gwaith galluogi i hwyluso cysylltiad y Datblygiad Arfaethedig a phrosiectau eraill cysylltiedig ag is-orsaf Bodelwyddan NGET. Mae NGET yn symud ymlaen â'r ceisiadau caniatâd angenrheidiol, y mae'n disgwyl eu cyflwyno yn 2023 ar hyn o bryd."</p> <p>Rhowch ddiweddariad ynghlŷn â'r uchod o ran rhaglennu ac amseru, ac unrhyw wybodaeth/manylion ychwanegol am y gwaith galluogi arfaethedig a allai fod yn berthnasol i'r prosiect arfaethedig hwn.</p>

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

0.9	Cyngor Gwynedd (GC), yr Ymgeisydd	<p>Llwybr Arfordir Cymru Roedd ExQ2.0.8 yn ymwneud â Llwybr Arfordir Cymru a'r bwriad i'w ailgyfeirio trwy Ystad Penrhyn.</p> <p>At GC: Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod gennych am leoliad yr ailgyfeiriad hwn, ac ymatebwch i ateb yr Ymgeisydd i ExQ2.0.8, os dymunwch wneud hynny. A fydd y newid i lwybr y llwybr troed yn arwain at unrhyw oblygiadau i ddefnyddwyr hamdden y llwybr o ran unrhyw effeithiau sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig?</p> <p>At yr Ymgeisydd: Diolch am eich ymateb i ExQ2.0.8. A ydych chi'n credu y byddai'r newid i lwybr y llwybr troed yn arwain at unrhyw oblygiadau i ddefnyddwyr hamdden y llwybr o ran unrhyw effeithiau sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig?</p>
1. Hedfanaeth		
1.1	Yr Ymgeisydd, NATS	<p>Contract Lliniaru Radar Rhowch unrhyw ddiweddariad ychwanegol i'ch ymateb i ExQ2.1.1. ar gynnydd y Contract Lliniaru Radar a rhowch ddatrysiaid/ateb amgen os na fydd y Contract yn cael ei lofnodi erbyn 20 Mawrth, pan ddaw'r archwiliad o'r datblygiad arfaethedig i ben.</p>
2. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol		
2.1	CNC, JNCC, RSPB, NWWT	<p>Cyffredinol Rhowch wybod a oes gennych unrhyw broblemau ag Ymateb yr Ymgeisydd i R17Q1.1 [REP4-008] a'r cynlluniau templed a ddarparwyd, ac os oes problemau'n bodoli, cyfeiriwch atynt gydag esboniad a thystiolaeth i gyfiawnhau.</p>
2.2	Yr Ymgeisydd	<p>Cyffredinol Yn dilyn eich Atodiad J – Ymateb i ExQ1 2.88 – Nodyn Technegol ar Beiriannau Symudol Nad ydynt ar gyfer y Ffordd (NRMM) [REP1-007], a wnewch chi grynhoi unrhyw effeithiau ansawdd aer posibl ar gynefinoedd eraill o ganlyniad i allyriadau NRMM.</p>

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

2.3	RSPB, NWWT	Cyffredinol – Mesurau Lliniaru Rhowch wybod a oes gennych unrhyw broblemau â'r Atodlen Mesurau Lliniaru a Monitro [REP4-021], ac os oes problemau'n bodoli, cyfeiriwch atynt gydag esboniad a thystiolaeth i gyfiawnhau.
2.4	CNC, DCC	Ar y Tir – Mesurau Lliniaru Gan gyfeirio at Ymateb yr Ymgeisydd i Bwyntiau Gweithredu ISH3 [REP4-003], a wnewch chi gadarnhau a oes gennych unrhyw amheuon y gall gwaith cyn dechrau ddigwydd yn unol â chynlluniau rheoli amlinellol fel yr oLEMP [REP4-011], yr oCoCP [REP5-016], a'r strategaeth ddraenio amlinellol fel y'u hardystiwyd.
2.5	Yr Ymgeisydd	Ar y Tir – Mesurau Lliniaru Yn dilyn eich ymateb i Bwyntiau Gweithredu ISH3 [REP4-003], eglurwch a fyddai angen i'r cynlluniau rheoli amlinellol, fel yr oLEMP [REP4-011], yr oCoCP [REP5-016] a'r strategaeth ddraenio amlinellol [REP1-045] fel y'u hardystiwyd, gael eu hadolygu ymhellach a'u cytuno gan DCC a CNC cyn i unrhyw waith cyn dechrau gael ei wneud (e.e. ymchwiliadau archaeolegol, creu mynedfa dros dro, clirio'r safle gan gynnwys clirio llystyfiant, a dargyfeirio a gosod cyfleustodau a gwasanaethau).
2.6	Yr Ymgeisydd	Ar y Tir – Mesurau Lliniaru Yn dilyn eich ymateb i Bwyntiau Gweithredu ISH3 [REP4-003] Gwarchodfa Natur Glascoed, a wnewch chi ddisgrifio effeithiau posibl gwaith adeiladu ar hyd cornel ogledd-ddwyreiniol ôl troed platfform yr is-orsaf, a'r effeithiau posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau Gwarchodfa Natur Glascoed.
2.7	Yr Ymgeisydd, NWWT	Ar y Tir Gan gyfeirio at SoCG NWWT [REP4-032], a wnaiff yr Ymgeisydd ac NWWT gadarnhau statws eu safbwynt ar gyfer pob pwynt trafod yn Nhabl 3 o ran Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur ar y Tir neu ddarparu SoCG wedi'i ddiweddarau.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

2.8	Yr Ymgeisydd	Alltraeth – Adareg Gan gyfeirio at SoCG Ynys Manaw (IoM) [REP4-014], a wnewch chi ddarparu ymateb os bydd data cyfeiriadol yn yr asesiad yn awgrymu bod cysylltiad tebygol rhwng yr ardal astudio â chynefin yr adar sy'n nythu ar Calf of Man.
2.9	RSPB	Alltraeth – Adareg A wnewch chi roi sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i ExQ2.2.21 [REP6-003] a chynghori ar unrhyw anghytundeb gyda thystiolaeth i gyfiawnhau.
2.10	RSPB	Alltraeth – Adareg A wnewch chi roi sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i ExQ2.2.23 [REP6-003] a chynghori ar unrhyw anghytundeb gyda thystiolaeth i gyfiawnhau.
2.11	CNC	Alltraeth - Adareg A wnewch chi gadarnhau eich bod yn fodlon i'r paramedrau generig a roddwyd yn Horswill a Robinson (2015) gael eu defnyddio gan nad oes paramedrau penodol i safle ar gael yn rhwydd.
2.12	RSPB	Alltraeth – Adareg A wnewch chi roi sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i ExQ2.2.17 [REP6-003] a chynghori ar unrhyw anghytundeb gyda thystiolaeth i gyfiawnhau.
2.13	RSPB	Alltraeth – Adareg A wnewch chi roi sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i ExQ2.2.12 [REP6-003] a chynghori ar unrhyw anghytundeb gyda thystiolaeth i gyfiawnhau.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

2.14	Yr Ymgeisydd, RSPB, CNC	<p>HRA RSPB</p> <p>A wnewch chi roi sylwadau ar yr atodiad a gyflwynwyd gan Adran Gyngori CNC erbyn Terfyn Amser 5, sef ATODIAD A: Safbwynt adran gyngori CNC ynglŷn â goblygiadau Amcanion Cadwraeth newydd eu cyhoeddi ar gyfer AGA Bae Lerpwl i'n cyngor statudol ynglŷn â fferm wynt alltraeth Awel y Môr [REP5-039].</p> <p>At yr Ymgeisydd a CNC</p> <p>ATODIAD A: Safbwynt Cyngori CNC ynghylch goblygiadau'r Amcanion Cadwraeth sydd newydd eu cyhoeddi ar gyfer SPA Bae Lerpwl</p> <p>A wnewch chi gyngori ynglŷn ag unrhyw oblygiadau i'r Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol [APP-027] ac atodiadau cysylltiedig?</p>
3. Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)		
3.1	Yr Ymgeisydd	<p>Trafodaethau</p> <p>Mae paragraff 1 y ddogfen drafodaethau [REP6-016] yn datgan bod lesddeiliaid a thenantiaid wedi'u rhestru o dan landlordiaid perthnasol. Eglurwch y datganiad hwn, gan nodi er enghraifft, bod perchennog Llain 17, perchennog Llain 285 a pherchennog Llain 331, fel y'u dangosir yn y Llyfr Cyfeirio (BoR) [REP6-010], wedi'u rhestru yn y ddogfen drafodaethau ond nid felly'r lesddeiliaid / tenantiaid perthnasol?</p>
3.2	Yr Ymgeisydd	<p>Trafodaethau</p> <p>Esboniwch pam nad yw'r ddogfen drafodaethau [REP6-016] yn cynnwys rhai meddianwyr, er enghraifft y rhai hynny a restrir o dan Lain 17, Llain 285 a Llain 331 yn y BoR [REP6-010].</p>
3.3	Yr Ymgeisydd	<p>Trafodaethau</p> <p>Eglurwch pam mae rhai Partïon yr Effeithir Arnynt wedi'u rhestru sawl gwaith yn y ddogfen drafodaethau [REP6-016].</p>

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

3.4	Yr Ymgeisydd	Trafodaethau Mae cyflwyniadau [REP5-036] a [REP5-037] yn nodi dyddiad gwahanol ar gyfer y trafodaethau mwyaf diweddar i hwnnw a nodwyd yn y ddogfen drafodaethau [REP6-016]. Eglurwch y sefyllfa, os gwelwch yn dda.
3.5	Yr Ymgeisydd	Trafodaethau Nid yw cofnodion 28 a 29 yn yr Atodlen CA [REP6-018] yn ymddangos yn y ddogfen drafodaethau [REP6-016]. Ychwanegwch nhw fel y bo'r angen (gan nodi nad yw Ymddiriedolwyr Cronfa Cynnal a Chadw Ystad Bodrhyddan yn ymddangos yn y BoR [REP6-010]).
3.6	Yr Ymgeisydd	Trafodaethau Er mwyn rhwyddineb cyfeirio, ac er nad ydynt wedi'u cynnwys yn y BoR, byddai'n ddefnyddiol i'r Ymgeisydd gynnwys adran ar wahân yn y ddogfen drafodaethau [REP6-016] sy'n manylu ar drafodaethau â North Hoyle Wind Farm Ltd a Rhyl Flats Wind Farm Ltd.
3.7	Yr Ymgeisydd	BoR Mae'r asiant a gyflwynodd [AS-048] yn ymddangos yn y BoR [REP6-010] sawl gwaith. Cadarnhewch a yw'r cofnodion hyn yn gywir.
3.8	Yr Ymgeisydd	BoR A yw'r Ymgeisydd wedi cynnal unrhyw ymchwiliadau pellach i'r buddiannau 'anhysbys' yn y BoR [REP6-010], fel ar gyfer Lleiniau 96, 97 a 98?
3.9	Yr Ymgeisydd	Atodlen CA Gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyflwyniadau, gan gynnwys mewn perthynas â'r A55 [REP1-097], a ddylai Gweinidogion Cymru, sef awdurdod y Goron ar gyfer tir sy'n gysylltiedig â'r A55 a'r awdurdod priffyrdd, gael eu cynnwys yn yr Atodlen CA [REP6-018]?

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

3.10	Yr Ymgeisydd	Atodlen CA Er mwyn rhwyddineb cyfeirio, mae'r ExA yn gofyn unwaith eto i'r wybodaeth fel y mae'n ymddangos yn y ddogfen drafodaethau [REP6-016] gael ei chopïo i rannau perthnasol yr Atodlen CA [REP6-018] erbyn pob terfyn amser.
3.11	Yr Ymgeisydd	Diweddariadau i Ddogfennau Gwnewch yn siŵr fod y ddogfen drafodaethau [REP6-016] a'r Atodlen CA [REP6-018] yn cael eu diweddaru erbyn pob terfyn amser olynol.
3.12	Yr Ymgeisydd	OnSS a Gwella Bioamrywiaeth Crybwyllir drwy gydol eich cyflwyniadau, gan gynnwys [REP3a-005], y byddai'r cwantwm gwella bioamrywiaeth ar safle'r OnSS yn bodloni gofynion polisi perthnasol. Nodwch ba ofynion polisi, os gwelwch yn dda.
3.13	Yr Ymgeisydd	Hawliau Tramwy Byddai Llain 416, sy'n cynnwys hawl dramwy gyhoeddus, yn destun CA tir. Sut byddai'r Ymgeisydd (neu unrhyw dirfeddiannwr dilynol) yn cael ei atal rhag cau'r hawl dramwy gyhoeddus yn barhaol yn y dyfodol?
3.14	Yr Ymgeisydd	Ymgwymerwyr Statudol Mae'r ddogfen drafodaethau [REP6-016] yn nodi bod a127(6) PA2008 yn berthnasol i saith Ymgwymerwr Statudol. Fodd bynnag, a yw hyn yn gywir o ystyried mai dim ond dau ohonynt y nodir eu bod yn dirfeddianwyr yn y BoR (Network Rail Infrastructure Limited a Dŵr Cymru)?
3.15	Yr Ymgeisydd	Lleiniau O ystyried cyflwyniad [REP5-034], ymdriniwch â phryderon ynglŷn â'r canlynol: a) Cyfnodau amser ar gyfer yr hawliau a geisir; b) Yr angen i leiniau penodol (neu rannau ohonynt) gael eu cynnwys yn nhir y Gorchymyn (h.y. Lleiniau 142 a 145); ac c) Goblygiadau i ddatblygu / arallgyfeirio tir yn y dyfodol.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

3.16	Yr Ymgeisydd, Network Rail Infrastructure Limited (NRIL)	Darpariaethau Amddiffynnol Eglurwch: a) B'un a ydych yn disgwyl dod i gytundeb ar ddarpariaethau amddiffynnol cyn i'r Archwiliad ddod i ben; b) Y prif feysydd yr anghytunir arnynt o hyd; c) Goblygiadau i'r Datblygiad Arfaethedig os na chytunir ar ddarpariaethau amddiffynnol; ch) Dulliau sydd ar gael i'r ExA os na chytunir ar ddarpariaethau amddiffynnol; ac d) P'un a ystyriwyd defnyddio'r un darpariaethau amddiffynnol â dDCOs eraill a wnaed (h.y. Norfolk Boreas a Hornsea Three).
3.17	Yr Ymgeisydd, Dŵr Cymru	Darpariaethau Amddiffynnol Eglurwch: a) B'un a ydych yn disgwyl dod i gytundeb ar ddarpariaethau amddiffynnol cyn i'r Archwiliad ddod i ben; b) Y prif feysydd yr anghytunir arnynt o hyd; c) Goblygiadau i'r Datblygiad Arfaethedig os na chytunir ar ddarpariaethau amddiffynnol; ac ch) Dulliau sydd ar gael i'r ExA os na chytunir ar ddarpariaethau amddiffynnol.
3.18	Yr Ymgeisydd	Darpariaethau Amddiffynnol / Cytundebau Eraill Rhowch ymateb i'r cyflwyniad gan NHWF [REP5-040], gan gynnwys eich barn am y darpariaethau amddiffynnol fel y'u hawgrymwyd. Nodwch hefyd y dulliau sydd ar gael i'r ExA os na fydd y partion yn dod i gytundeb erbyn diwedd yr Archwiliad.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

3.19	Yr Ymgeisydd, Rhyl Flats Wind Farm Limited (RFWF)	<p>Effeithiau dilynol Mae'r ExA yn nodi'r holl sylwadau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ac RFWF mewn perthynas ag effeithiau dilynol.</p> <p>At yr Ymgeisydd:</p> <p>a) Amlinellwch yn fanwl eich safbwyntiau ynglŷn â pherthnasedd NPS EN-3 paragraffau 2.6.176 – 2.6.188 i'r Datblygiad Arfaethedig (gan nodi eich bod yn awgrymu yn [REP1-007] a [REP5-003] nad ydynt yn berthnasol, ond yn cyfeirio at ymgynghori â 'gweithredwyr ffermydd gwynt alltraeth eraill' fel rhanddeiliaid y gellid effeithio arnynt o bosibl yn adran berthnasol yr Olrheiniwr NPS [REP3-003] yn ymwneud â'r paragraffau NPS hyn);</p> <p>b) Cadarnhewch a chrynhoi'r effaith ddilynol bosibl a'r asesiad economaidd-gymdeithasol a gynhaliwyd i fodloni Rheoliad 5 (2)(a) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017. Os na chynhaliwyd yr asesiad hwn, rhowch gyfiawnhad a thystiolaeth berthnasol;</p> <p>c) Cadarnhewch a chrynhoi eich ymagwedd at NPS EN-1, paragraff 5.12.2 lle mae'r prosiect yn debygol o gael effeithiau economaidd-gymdeithasol ar lefelau lleol neu ranbarthol, y dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad o'r effeithiau hyn yn rhan o'r ES a'i gynnwys yn ei gais (gweler Adran 4.2);</p> <p>ch) A ydych chi'n credu y gallai fod potensial ar gyfer effeithiau dilynol ar weithredu RFWF? Os na, pam?; ac</p> <p>d) Os felly, a fydddech chi'n fodlon cynnal asesiad o hyn?</p> <p>At RFWF:</p> <p>dd) Faint o amser sydd ar ôl gan RFWF i weithredu / pryd y disgwylir i RFWF gael ei datgomisiynu?</p> <p>e) Mae [REP4-048] yn datgan y byddai adeiladu Awel y Môr yn arwain at golled ddilynol wirioneddol yn fferm wynt Gwastadeddau'r Rhyl o (oddeutu) 2%. A yw'r ffigur hwn yn cynrychioli colled ganrannol o ran yr ynni a gynhyrchir yn RFWF, a, heb asesiad colled ddilynol, sut cyfrifwyd y ffigur hwn?; ac</p> <p>f) Gan gyfeirio at NPS EN-3 paragraff 2.6.185, ydych chi'n credu y byddai'r golled ddilynol hon yn debygol o effeithio ar hyfywedd RFWF yn y dyfodol?</p>
------	---------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

		<p>At yr Ymgeisydd ac RFWF:</p> <p>ff) Gwnewch sylwadau ynglŷn â ph'un a fyddai NPS EN-3 paragraff 2.6.188 (ac NPS EN-3 drafft paragraff 2.34.8) yn cynnig ateb posibl i'r anghydfod ynglŷn ag effaith ddilynol, ac, os felly, rhowch eiriad awgrymedig ar gyfer gofyniad o'r fath.; ac</p> <p>g) Mae RFWF yn awgrymu potensial ar gyfer colled ddilynol o hyd at 2% o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig. O ystyried y cyfnod sydd ar ôl gan RFWF i weithredu ac unrhyw effeithiau posibl ar ei hallbwn trydanol o ganlyniad i golled ddilynol o'r fath, i ba raddau y gallai hyn effeithio ar y buddion y gallai'r Datblygiad Arfaethedig eu darparu o ran allbwn trydanol / ynni adnewyddadwy ar hyd ei hoes?</p>
3.20	Yr Ymgeisydd, RFWF	<p>Darpariaethau Amddiffynnol</p> <p>Er gwaethaf materion colled ddilynol, eglurwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) B'un a ydych yn disgwyl dod i gytundeb ar ddarpariaethau amddiffynnol cyn i'r Archwiliad ddod i ben ar yr holl faterion eraill; b) Y prif feysydd yr anghytunir arnynt o hyd; c) Goblygiadau i'r Datblygiad Arfaethedig os na chytunir ar ddarpariaethau amddiffynnol; ac ch) Dulliau sydd ar gael i'r ExA os na chytunir ar ddarpariaethau amddiffynnol.
3.21	Ystâd y Goron	<p>Mae ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1.3.27c [REP1-007] yn awgrymu bod meini prawf eistedd Ystâd y Goron ar gyfer estyniadau fferm wynt alltraeth (2017) yn gosod gwrthbwysid 5km o ffermydd gwynt alltraeth gweithredol eraill i ystyried potensial ar gyfer effeithiau deffro / gostyngiadau mewn allbwn ynni ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth eraill. A all Ystâd y Goron roi sylwadau ar y mater hwn ac egluro a yw hyn yn wir?</p>
4. Adeiladu		

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

4.1	Yr Ymgeisydd	Ar y Tir Yn dilyn eich Pwyntiau Gweithredu ISH3 [REP4-003] ymateb i waith cyn dechrau, adeiladu a rhaglen, ymateb i ExQ2.4.3 [REP5-004] a Datganiad Dulliau Adeiladu Ar y Tir Amlinellol [REP6-045], nodwch ardal ôl troed fwyaf y llawr caled a nodwch y lleoliadau hyn yn ardal yr OnSS ar gyfer y gwaith cyn dechrau canlynol: a) Ymchwiliadau archaeolegol; b) Ymchwiliadau tir; ac c) Clirio'r safle gan gynnwys clirio llystyfiant.
4.2	Yr Ymgeisydd, CNC, DCC	Ar y Tir At yr Ymgeisydd A wnewch chi gadarnhau'r asesiad o effaith ar gyfer sŵn ac ansawdd aer (gan gyfeirio at eich ymateb i ExQ2.4.7 [REP5-004] y gallai fod angen malu/didoli os deuir ar draws deunydd cydlynol a gronynnog neu greigiau). Eglurwch hefyd a ystyrir bod malu/didoli'n weithgarwch dymchwel, gan gyfeirio at eich ymateb blaenorol i ExQ1.4.18 [REP1-007] nad ydych yn bwriadu ymgymryd â gweithgareddau dymchwel ar y safle. At CNC, DCC A wnewch chi restru unrhyw drwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer malu/prosesu deunydd ar y safle.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

4.3	Yr Ymgeisydd, CNC	<p>Ar y Tir At yr Ymgeisydd: A wnewch chi egluro'ch ymagwedd at wastraff a deunyddiau. Mae'r datganiad y gall deunydd a dorwyd o'r safle gael ei ddefnyddio fel rhan o'r gofynion deunydd llenwi ar gyfer y platfform gwrthglawdd, yn amodol ar y gofyniad manyleb a phrofi yn yr ymateb i ExQ2 4.7 [REP5-004], yn awgrymu na fyddai'n wastraff ac, yn hytrach, y byddai'n cael ei reoli mewn ffordd a fyddai'n golygu ei fod yn ddeunydd.</p> <p>At yr Ymgeisydd a CNC: Amlinellwch y dull a'r ymagwedd at y fframwaith deddfwriaeth wastraff o ran aildefnyddio creigiau/pridd gronynnog a gloddiwyd ac a oes angen cynllun rheoli deunyddiau amlinellol.</p>
5. Dylunio Da		
5.1	Yr Ymgeisydd	<p>Dogfen Egwyddorion Dylunio Mae'r ExA yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Ddogfen Egwyddorion Dylunio erbyn Terfynau Amser 4 a 5. Mae un newid o'r fath yn ymwneud â'r Broses Adolygu Dyluniad (Pennod 4, [REP5-020]. Gofynnir i chi ddarparu llinell amser ddangosol yn y ddogfen ar gyfer y broses a'r amryw gamau a amlygwyd. Nid oes angen iddi gynnwys dyddiadau ond fe ddylai, er enghraifft, ddangos y camau a amlinellir ym mharagraffau 120 i 128 mewn arddull weledol glir fel y gall partion â buddiant weld y camau a gynigir yn glir ac y gall preswylwyr lleol weld pryd y gallant ddisgwyl cael eu hymgynghori yn ystod y broses.</p>
5.2	Yr Ymgeisydd	<p>Dogfen Egwyddorion Dylunio Mae eich ateb i ExQ2.5.4 [REP5-004] yn nodi'r cyfle posibl i ymestyn y Warchodfa Natur yn rhan o'r cynigion a'r potensial ar gyfer mynediad cyhoeddus trwy'r ardaloedd lliniaru, cyhyd ag y bodlonir amodau penodol. A allai cynigion o'r fath gael eu cynnwys yn y Datganiad Egwyddorion Dylunio? Os felly, darparwch fersiwn wedi'i diweddarau.</p>
6. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)		
Mae'r cwestiynau / sylwadau yn ymwneud â Diwygiad K [REP6-005] (glân) / [REP6-006] (wedi'i olrhain) y dDCO		

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

Erthyglau (A)		
6.1	Yr Ymgeisydd	A27(8) – mae'n ymddangos bod cwmpas yr erthygl hon yn parhau i fod yn ormodol gan ei bod yn cyfeirio o hyd at gaffael hawliau'n orfodol dros dir y nodwyd ei fod ar gyfer ei feddiannu dros dro yn unig. Mae unrhyw dir sy'n ddarostyngedig i gaffael hawliau'n orfodol / cyfamodau cyfyngol wedi'i gynnwys yn Atodlen 7 a darperir ar gyfer hyn yn A20. Nid yw'n ymddangos bod Atodlenni 6 a 7 yn trawsgroesi. Diwygiwch A27(8) y dDCO fel y bo'r angen.
Atodlenni (Sch), gan gynnwys Gofynion (R)		
6.2	Yr Ymgeisydd	Sch 1, Rhan 1 (ychydig uwchben Tabl 1) – rydych wedi newid y cyfeiriad cyntaf at 'gynlluniau gwaith' i 'gynllun lleoliad' yn gywir (gan fod y cynllun lleoliad yn cynnwys y cyfesurynnau), ond wedi newid yr ail gyfeiriad at 'gynlluniau gwaith' i 'gynllun lleoliad' hefyd yn anghywir. Cywirwch hyn, os gwelwch yn dda, oherwydd dangosir y Rhifau Gwaith ar y cynllun gwaith.
6.3	Yr Ymgeisydd	Sch 2, Gofyniad 2, Tabl 3 – a ddylai hyn nodi'r uchderau mwyaf ar gyfer yr hyb a mastiau meteorolegol (gan nodi bod dogfennau'r SLVIA (h.y. [APP-206 / APP-209]) yn awgrymu y byddai'n 179m ar gyfer MDS A a 157m ar gyfer MDS B)?
6.4	Yr Ymgeisydd	Sch 4 – yn dilyn ExQ1.6.46(a), mae'r atodlen hon yn parhau i gyfeirio at 'Strydoedd a hawliau tramwy sydd i'w cau neu eu cyfyngu dros dro' er na nodir unrhyw strydoedd. Esboniwch y rheswm dros hyn neu diwygiwch yr atodlen fel y bo'r angen.
7. Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr		

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

7.1	Dŵr Cymru	Draeniad Dŵr Budr Mae eich cyflwyniad yn Derfyn Amser 1 [REP1-058] yn nodi ei bod yn ymddangos nad yw'r cais yn bwriadu cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus ond pe bai amgylchiadau'n newid y byddech yn dymuno i ni ail-ymgyngori. Mae strategaeth ddraenio amlinellol ragarweiniol yr is-orsaf [APP-138], [REP1-045], yn cynnwys cynigion ar gyfer cysylltiadau carthffosiaeth fudr (rhan 4). Rhowch unrhyw sylwadau ar y cysylltiadau arfaethedig hyn, os dymunwch wneud hynny.
8. Yr Amgylchedd Hanesyddol		
8.1	Yr Ymgeisydd ac unrhyw Bartion â Buddiant perthnasol/sydd â diddordeb	Faenol Broper Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (Cyfrol 3, Pennod 2 yr ES) [AS-029] a'r ddogfen Effeithiau Gweledol o Faenol Broper [REP4-027] yn datgan bod Faenol Broper yn ffermdy rhestredig Gradd II (Tabl 13 a pharagraff 6, yn y drefn honno). Fodd bynnag, mae'r ExA yn deall mai'r ysgubor i'r gogledd-orllewin o Ffermdy Faenol Broper yw'r adeilad rhestredig yn hytrach na'r ffermdy (cyfeirnod Cadw 1378). A wnewch chi gadarnhau a yw hyn yn gywir? Os felly, cywirwch/diwygiwch unrhyw ddogfennau perthnasol, gan gynnwys eu canfyddiadau a'u casgliadau os bydd angen. Os nad yw hyn yn gywir, darparwch dystiolaeth o restriad y ffermdy.
9. Defnydd Tir		

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

9.1	DMPC ar ran Mr JB a Mrs E Evans	Faenol Broper Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod uned amaethyddol Faenol Broper hefyd yn ffermio 30ha o dir ger Castell Bodelwyddan na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno (Tudalen 176 [REP1-007]). A yw'r tir hwn yn ychwanegol at 61.29ha y daliad fel y'i hadroddwyd ac, os felly, a oes gan hyn unrhyw oblygiadau i ganran y tir a feddiannir y cyfeiriwyd ato gan DMPC ([REP1-103] a [REP1-104]) a hyfywedd y busnes fferm? Anodwch y 30ha ychwanegol ar gynllun, os gwelwch yn dda.
9.2	Yr Ymgeisydd	Faenol Broper Mae penodau'r ES ar Amodau Tir a Defnydd Tir [APP-067] a Ffactorau Economaidd-Gymdeithasol [AS-034] yn adrodd na fydd effeithiau arwyddocaol ar weithrediadau amaethyddol oherwydd bwriedir i'r tir gael ei adfer. A yw'r casgliad hwn yn gywir yn achos Faenor Broper, o ystyried y tir a feddiannir yn barhaol ar gyfer yr OnSS a gwaith cysylltiedig?
9.3	Yr Ymgeisydd	Tabl Daliadau Amaethyddol Diweddarwch y tabl yn Atodiad D o ran ExQ2.9.6 [REP5-004] i gynnwys y manylion canlynol: a) Cyfanswm maint pob daliad; b) Faint o'r daliad a gollir i'r Datblygiad Arfaethedig yn ôl hectar; c) Faint o'r daliad a gollir i'r Datblygiad Arfaethedig, wedi'i rannu'n ddatblygiad dros dro a pharhaol yn ôl hectar; ch) Canran y daliad a gollir i'r Datblygiad Arfaethedig, wedi'i rhannu'n ddatblygiad dros dro a pharhaol; ac d) Arwyddocâd y golled o ran Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) ar gyfer pob daliad.
9.4	Yr Ymgeisydd	Daliadau Amaethyddol O ran y daliadau hynny y nodwyd nad ydynt yn ffurfio rhan o ddaliad amaethyddol cydnabyddedig, ond sy'n cael eu ffermio gan denant neu feddiannwr (Atodiad E wrth ymateb i ExQ2.9.6 [REP5-004]), cadarnhewch ba lain maen nhw'n berthnasol iddi yn y Llyfr Cyfeirio [REP6-010]. Cynhwyswch y wybodaeth hon yn y tabl daliadau amaethyddol a grybwyllwyd uchod mewn perthynas ag Atodiad D ExQ2.9.6 [REP5-004].

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

9.5	Ymddiriedolwyr Cronfa Cynnal a Chadw Ystad Bodrhyddan a Chwmni Ffermio Bodrhyddan	Cynllun Rheoli Pridd amlinellol (oSMP) Gan nodi'ch pryderon ynglŷn ag effaith bosibl ar ansawdd pridd, ydych chi'n fodlon â'r mesurau a gynigir yn yr oSMP [REP5-018]? Os na, rhestrwch eich pryderon penodol ac unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.
9.6	Yr Ymgeisydd	Safle'r Is-orsaf ar y Tir (OnSS) Gan nodi bod arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) ychwanegol wedi cael ei gynnal ar safle arfaethedig yr OnSS, a oes angen diweddarau'r tabl a ddarparwyd wrth ymateb i ExQ1.9.8 [REP1-007]?
9.7	Yr Ymgeisydd	Safle'r Is-orsaf ar y Tir (OnSS) Darparwch gynllun sy'n dangos rhaniad tir ALC ar safle arfaethedig yr OnSS.
9.8	Yr Ymgeisydd	Cynlluniau Tir Amaethyddol Darparwch y cynlluniau diwygiedig a gynhwysir yn Atodiad L ac Atodiad M, a gynhyrchwyd wrth ymateb i ExQ1.9.1 [REP1-007], wrth raddfa 1:10,000.
9.9	Yr Ymgeisydd	Cynllun Ffermio Cynaliadwy Gan nodi'r pryder parhaus ynglŷn â cholli coed a'r effaith bosibl ar lefel y gorchudd coed sy'n ofynnol i fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru [REP5-036] a'r sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn [REP5-044], a gyfathrebwyd â Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r manylion sy'n ofynnol ar gyfer eithriadau a/neu amrywiadau posibl i'w hystyried yn fanylach?
9.10	Yr Ymgeisydd	Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol (oSMP) Mae paragraff 76 o'r oLEMP [REP4-011] yn nodi " <i>Yn yr OnSS TCC, bydd glaswelltir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol yn dilyn y gwaith adeiladu. Mewn manau eraill, bydd glaswelltir yn cael ei adfer gyda'r nod o greu gweirglodd iseldir Cynefin Blaenoriaeth S7. Cychwynnir hyn drwy reoli pridd gofalus, er mwyn sicrhau bod y pridd a ddisodlwyd o ffrwythlondeb isel ac yn barod i safon dda.</i> " Cadarnhewch ble yn yr oSMP mae'r dull penodol hwn o adfer yn fanwl?

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

10. Tirwedd a Gweledol		
10.1	Yr Ymgeisydd DCC	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol (oLEMP) Mae'r oLEMP (paragraffau 90, 92 a 93) [REP4-011], yr oCoCP (paragraff 40) [REP4-019] a'r oCMS (paragraff 99) [REP4-017] yn darparu ar gyfer manylion gwarchod coed. Fodd bynnag, a ddylid ymestyn hyn i ddarparu ar gyfer manylion gwarchod gwrychoedd hefyd?
10.2	DCC	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol (oLEMP) Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod cyfnod o bum mlynedd yn addas o fewn Gofyniad 9 y dDCO, er ei fod wedi diwygio'r oLEMP [REP4-012] fel y bydd yr LEMP terfynol yn cynnwys cynigion ar gyfer cynnal a chadw tirweddu sy'n gysylltiedig â'r safle OnSS yn y tymor hir. Byddai hyn yn cael ei sicrhau o dan Ofyniad 13 y dDCO. A wnewch chi gadarnhau p'un a yw hyn yn datrys eich pryderon ynglŷn â thirweddu o amgylch yr OnSS a'i effeithiolrwydd wrth sgrinio yn y tymor hir?
10.3	Yr Ymgeisydd	Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) Cafodd yr LVIA Ffigur 2.6 [APP-162] ei ddiwygio [AS-033] yn unol â chais yr ExA. Fodd bynnag, yr enw ar y ddwy fersiwn yw 'Diwygiad A'. Diwygiwch [AS-033] i adlewyrchu'r gwall hwn a chynhwyswch gyfeirnod y cais yn y ddogfen hon hefyd (6.6.2.2.7).
11. Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol		
Nid oes unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		
12. Morol – Pysgodfeydd Masnachol, Morgludiant a Mordwyo		
Nid oes unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		
13. Morol – Naturiol		
Nid oes unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		
14. Iechyd y Cyhoedd a Niwsans		
Nid oes unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

15. Prosiectau a Chynigion Eraill		
Nid oes unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		
16. Disgrifiad o'r Prosiect a Dethol Safle		
Nid oes unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r maes pwnc hwn yn y rownd hon o gwestiynau.		
17. Morlun, Tirwedd a Gweledol		
17.1	Yr Ymgeisydd, CNC	Cynlluniau Mae'r drydedd res [REP4-003] yn darparu dolenni i nifer o ddogfennau y gofynnwyd amdanynt. Darparwch gopiâu pdf o'r rhain, os gwelwch yn dda.
17.2	Yr Ymgeisydd, CNC	Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Mae [REP4-003] yn nodi bod fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi cael ei mabwysiadu yn hwyr ym mis Rhagfyr 2022. A wnewch chi: a) ddarparu copi pdf o hwn; a b) amlygu unrhyw oblygiadau i'r SLVIA (a'r LVIA).
17.3	Yr Ymgeisydd, IoACC, GC, CBCC, DCC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ENPA)	Gwella'r Dirwedd A wnewch chi: a) roi diweddariad ar drafodaethau ynglŷn â'r gwelliannau posibl i dirwedd ardaloedd dynodedig; a b) cadarnhau p'un a fwriedir cyflwyno cytundeb cyfreithiol wedi'i gwblhau mewn perthynas â hyn i'r Archwiliad ac, os felly, pryd?
17.4	CNC, ENPA, IoACC	Newid yn yr Hinsawdd Mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio (gan gynnwys ym mharagraffau 3.36 a 3.61 [REP5-007]) at newidiadau niweidiol helaeth a ragfynegir i dirweddau, gan gynnwys y rhai hynny yn yr AHNE ac SNP (nawr ENPA), os na chymerir camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n mynd ymlaen i awgrymu, felly, y byddai mesurau'r Datblygiad Arfaethedig i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at warchod y tirweddau hyn. A yw'r partïon yn rhannu'r farn hon? Os na, rhowch resymau.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

17.5	Yr Ymgeisydd	NPS EN-1 O ystyried NPS EN-1 paragraff 5.9.12, esboniwch sut mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi ceisio osgoi peryglu dibenion dynodiadau'r AHNE a'r Parc Cenedlaethol a sut y bu / a fyddai'n cael ei ddylunio mewn ffordd sy'n ystyried yr amryw gyfyngiadau lleoliadol, gweithredol a pherthnasol eraill?
18. Economaidd-Gymdeithasol		
18.1	Yr Ymgeisydd	Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol (oSES) – Blaenoriaethau Mae paragraff 40 yr oSES [REP4-007] yn nodi mai addysg a hyfforddiant yw un o bedair prif flaenoriaeth y gymuned: darparwch restr lawn o'r holl flaenoriaethau a amlygwyd.
18.2	Yr Ymgeisydd	Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol (oSES) – Rhanddeiliaid Mae paragraff 69 yr oSES [REP4-007] yn datgan y bydd yr ymgynghoriad ynglŷn â'r SES derfynol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill. A wnewch chi gadarnhau pryd y bydd ymgynghoriad o'r fath yn cael ei gynnal a pham na ystyrir bod angen ymgynghori'n gynnar â rhanddeiliaid o'r fath? A wnewch chi hefyd gadarnhau pa rhanddeiliaid a fydd yn cael eu cynnwys yn y categori 'eraill'?

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

18.3	Yr Ymgeisydd	<p>Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol (oSES) – Gwerthuso Mae paragraff 100 yr oSES [REP4-007] yn cadarnhau y bydd y gwerthusiad o lwyddiant y gweithgareddau yn yr SES derfynol yn cael ei gynnal yn gyfnodol er mwyn deall a yw amcanion y strategaeth yn cael eu bodloni ac i ddeall y buddion economaidd ehangach y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn eu cael yn y rhanbarth lleol.</p> <p>A wnewch chi gadarnhau:</p> <ol style="list-style-type: none"> Sut bydd y gwerthusiad yn cael ei gynnal? Pa mor aml y bydd y gwerthusiad yn digwydd? Pwy fydd yn cynnal y gwerthusiad? A fydd yn gorff/sefydliad annibynnol? Sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur? Os na ystyrir bod y gweithgareddau'n llwyddiannus, pa gamau a gymerir i unioni hyn? <p>O ran canfyddiadau'r gwerthusiad arfaethedig, mae paragraff 100 yn datgan ymhellach "<i>Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn cael ei gyfleu i randdeiliaid allweddol a bydd y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth yn cael ei diweddarau gydag adborth wrth iddo gael ei dderbyn</i>". A wnewch chi gadarnhau sut bydd y penderfyniad yn cael ei wneud i roi adborth i'r randdeiliaid allweddol ac ni ystyrir bod angen cyfleu'r holl ganfyddiadau?</p>
18.4	Yr Ymgeisydd	<p>Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol (oSES) – Rhaglen Brentisiaeth A wnewch chi gadarnhau nifer ddisgwyliedig y prentisiaethau yng Ngholeg Llandrillo, sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai, ar gyfer 2023. Os rhoddir caniatâd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, a oes ymrwymiad i gyflogi unrhyw un o garfan brentisiaid 2023 ym mhrosiect AyM?</p>
18.5	Yr Ymgeisydd	<p>Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol (oSES) – Llwybr Gyrfa Technegydd Os rhoddir caniatâd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, a oes ymrwymiad i gyflogi unrhyw un o'r unigolion ar lwybr gyrfa technegydd ym mhrosiect AyM?</p>

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

18.6	Llywodraeth Cymru	Datganiad Ieithyddol Cymunedol Gan nodi eich ymateb a wnaed mewn perthynas â'r CLS yn ExQ2.18.5 [REP5-044], ydych chi'n fodlon gyda'r gwelliannau a wnaed i'r CLS gan yr Ymgeisydd yn D6 [REP6-023]? Os nad oes modd rhestru eich pryderon penodol.
19. Twristiaeth a Hamdden		
19.1	Yr Ymgeisydd	Cynllun Rheoli Mynediad Cyhoeddus amlinellol (oPAMP) Mae'n ymddangos bod Tabl 1 o'r oPAMP [REP4-034] yn cynnwys rhai anghysondebau ag Atodlen 4 o'r dDCO. Cywirwch fel y bo'r angen, os gwelwch yn dda.
19.2	CCBC	Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) a Nodweddu Sylfaenol AEA Nodir y sylwadau a wnaed yn eich SoCG drafft [REP4-013] ynglŷn â nodweddu sylfaenol a thybiaethau. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth/tystiolaeth ychwanegol sydd bellach ar gael ers i'r ES gael ei lunio a fyddai'n newid y llinell sylfaen twristiaeth a hamdden? Os felly, darparwch fanylion ychwanegol.
19.3	CCBC	Llandudno a Phen y Gogarth – Economi Ymwelwyr Gan nodi'r sylwadau a wnaed yn eich SoCG [REP4-013] ynglŷn ag economi ymwelwyr Llandudno a Phen y Gogarth, cadarnhewch lefel yr arwyddocâd y mae CCBC yn ystyried ei bod yn gywir.
20. Traffig a Thrafnidiaeth		
20.1	Yr Ymgeisydd	Nifer, Pwysau a Dimensiynau Newidyddion Arfaethedig yr Is-orsaf ar y Tir Cadarnhewch nifer, pwysau a dimensiynau cyffredinol y newidyddion ar gyfer newidyddion arfaethedig yr is-orsaf ar y tir a fydd yn cael eu danfon i'r safle fel llwythi anwahanadwy anghyffredin.

ExQ3: 1 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 7: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023**

20.2	Yr Ymgeisydd	<p>Perthnasedd Adroddiad Asesu Llwyth Anghyffredin (ALAR) Blaenorol GyM i AyM</p> <p>Nodir bod ALAR GyM [REP5-005] wedi cael ei gwblhau yn 2006 a bod mynedfa safle arfaethedig AyM wedi'i lleoli ar ran wahanol o'r B5381 gydag aliniad fertigol a llorweddol gwahanol. A wnewch chi:</p> <ul style="list-style-type: none">a) Ddangos bod y llwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n ofynnol ar gyfer AyM yn union debyg i'r rhai hynny sy'n ofynnol ar gyfer GyM ac a ystyriwyd yn yr ALAR;b) Cadarnhau na fu unrhyw newidiadau o bwys i'r llwybr a fabwysiadwyd ar gyfer GyM hyd at y pwynt lle mae'n dargyfeirio o'r llwybr a gynigir ar gyfer AyM ers i ALAR GyM gael ei gyhoeddi; acc) Dangos bod y llwybr a gynigir ar gyfer AyM o'r pwynt lle mae'n dargyfeirio o'r llwybr a fabwysiadwyd ar gyfer GyM yn gallu ymdopi'n ddiogel â'r llwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n ofynnol ar gyfer yr AyM, gan gynnwys cyflawni'r gwelededd sy'n ofynnol wrth y fynedfa arfaethedig i'r safle ar y B5381.
20.3	DCC	<p>Llwybr Llwythi Anghyffredin</p> <p>A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â llwybr arfaethedig llwythi anwahanadwy anghyffredin i safle'r is-orsaf ar y tir, fel y'i hamlinellir yng Nghyfrol 3, Pennod 9: Traffig a Thrafnidiaeth yr ES [APP-070].</p>